




ADRODDIAD BLYNYDDOL

2015 - 2016



CYNNWYS

GAIR GAN Y CADEIRYDD	2
Y PWYLLGOR EIDDO A THENANTIAETH	6
Y PWYLLGOR DIWYDIANT AC ECONOMI	19
DIWEDDGLO	23
CYFRIFON BLYNYDDOL 2015 – 2016	24

GAIR GAN Y CADEIRYDD

Mae'n bleser, eto eleni, i gyflwyno adroddiad blynyddol Antur Nantlle sy'n amlinellu, yn fras, gwaith yr Antur yn ystod y flwyddyn 2015 i 2016. Mae hon yn flwyddyn arbennig i ni fel sefydliad gan ein bod yn dathlu ein pen-blwydd yn bump ar hugain oed. Rwy'n sicr y bydd pawb sydd yn darllen y ddogfen yma yn sylweddoli fod yr Antur yn gwneud gwahaniaeth yn Nyffryn Nantlle drwy roi cyfleoedd a chymorth i fusnesau newydd sydd am sefydlu neu gychwyn yn yr ardal, yn ogystal â chefnogi busnesau sydd wedi sefydlu yma yn barod.

Er gwaethaf y wasgfa ariannol, yn ogystal â'r ansicrwydd sy'n deillio o'r penderfyniad gan Brydain i adael Ewrop, rwy'n falch o adrodd fod Antur Nantlle wedi cael blwyddyn brysur a llwyddiannus unwaith eto. Mae'r llwyddiant yn dilyn gwaith diwyd, ymdrech a disgyblaeth ariannol fanwl. Ni fuasai hynny yn digwydd heb waith caled Robat, ein Prif Swyddog, a mawr yw ein diolch ni iddo, fel cyfarwyddwyr, am ei ddyfalbarhad a'i ymroddiad cydwybodol i wireddu ein hamcanion.

Fel sefydliad sy'n rhan o'r gymuned, rydym yn awyddus iawn, ar bob achlysur, i gynnwys a denu diddordeb trigolion y Dyffryn yng ngwaith yr Antur. Rydym yn barod i wrando ac i weithredu ar awgrymiadau gan bobl leol – boed hwy'n rhai economaidd neu'n rhai diwylliannol. Hoffwn estyn gwahoddiad i unrhyw un sydd â diddordeb yn lles y Dyffryn i alw yn y swyddfa i drafod ei syniadau – felly dewch ymlaen!

Cyn gorffen hoffwn ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu at waith yr Antur mewn unrhyw ffordd - yn swyddogion, gofalwyr, gwirfoddolwyr, aelodau, tenantiaid, cyfarwyddwyr, adeiladwyr a thrigolion y Dyffryn.

Yn olaf, dymuniadau gorau i O.P. Huws ar ei ymddeoliad o Fwrdd Antur Nantlle ar ôl pum mlynedd ar hugain o wasanaeth clodwiw - bydd yn chwith hebdo!

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yn 2016 - 2017.

Diolch yn fawr,

Emrys Jones
Cadeirydd

Y BWRDD RHEOLI



*Emrys Jones,
Cadeirydd*



*Owain Rowlands,
Is-gadeirydd*



Gwynne Williams



Dafydd Owen



Talfryn Griffiths



John Pritchard



Cyng. Craig ab Iago



Cyng. Dyfed Edwards



Myrddin Williams



Richard Wyn Huws



Karen Owen



Eifion Davies



Beryl Fretwell

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Emrys Jones (Cadeirydd).....	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi ymddeol
Owain Rowlands (Is-gadeirydd).....	Rheolwr Lleoliadau Digwyddiadau
Dafydd Owen.....	Cyfarwyddwr Gwasg Dwyfor
Talfryn Griffiths.....	Cyfreithiwr wedi ymddeol
John Pritchard.....	Cyfrifydd
Gwynne Williams.....	Ymgynghorydd Technegol (gwresogi glo caled)
Dyfed Wyn Edwards.....	Arweinydd Cyngor Gwynedd
Myrddin Williams.....	Swyddog Tai wedi ymddeol
Richard Wyn Huws.....	Gŵr camera proffesiynol a gŵr busnes
Craig ab Iago.....	Cynghorydd Gwynedd
Eifion Davies.....	Rheolwr cwmni deunyddiau adeiladu
Karen Owen.....	Bardd a newyddiadurwraig
Beryl Fretwell.....	Swyddog menter gymdeithasol wedi ymddeol
O.P. Huws (wedi ymddeol ar 4 Chwefror, 2016).....	Cyn Gynghorydd Gwynedd a gŵr busnes

Ysgrifennydd y Cwmni

Robat Jones.

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd 6 cyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth, ac is-grwpiau'r Pwyllgor Diwydiant ac Economi yn gyson.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar nos Iau, Tachwedd 19^{eg} 2015 yng Nghapel y Groes, Penygroes.

Yn unol â'r cyfansoddiad bu i bedwar o'r cyfarwyddwyr ymddeol o'r Bwrdd – Myrddin Williams, Richard Wyn Huws, OP Huws a Craig ab Iago. Ail etholwyd y pedwar.

Staff Antur Nantlle

Robat Jones..... Prif Swyddog Antur Nantlle
Bet Hughes..... Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg, y Llyfrgell a Siop 22
Nerys Jones..... Gofalwraig y Ganolfan Fenter
Nia Noone..... Gofalwraig Tŷ Iorwerth a Chapel Salem

Bancwyr

HSBC, Cangen Caernarfon.

Ardal Antur Nantlle

Mae Antur Nantlle Cyf yn gweithredu yn ardal Dyffryn Nantlle a'r pentrefi cyfagos sy'n cynnwys: Carmel, Clynnog Fawr, Dinas Dinlle, Y Fron, Y Groeslon, Llandwrog, Llanllyfni, Nantlle, Nasareth, Nebo, Penygroes, Pontllyfni, Talysarn, Tanrallt.



Robat Jones

Cyflawniadau 2014 - 2015

Swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod..... 85
Nifer wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir..... 2,700
Nifer a dderbyniodd hyfforddiant..... 57
Mudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth..... 19

Cyfarfod, Trafod a Chydweithio gyda

Cyngor Gwynedd, WEA Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Grŵp Gwefan Dyffryn Nantlle, Mantell Gwynedd, Cymorth i Ferched Cymru, Grŵp Cynefin, Grŵp Llys Llywelyn, Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Cyngor Cymuned Llanllyfni, Cyngor Cymuned Llanwnda, Cwmni Adwy Cyf, Cyngor Cymuned Llandwrog, Dyffryn Nantlle 20:20, Annog Cyf, Parc Cenedlaethol Eryri, Grŵp Llandrillo Menai, Cyfenter, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Menter Môn, Y Bont, SARDA Cymru, Ynni Ogwen, Ynni Padarn Peris, Urdd Gobaith Cymru, Gwersyll Glan Llyn, Clybiau Mynydd a Prifysgolion a chlybiau gweithgareddau awyr agored eraill, degau o ysgolion Gwynedd a Môn, a nifer o grwpiau a chymdeithasau eraill yn y gymuned.

Y PWYLLGOR EIDDO A THENANTIAETH

(Cadeirydd: Myrddin Williams)

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle sy'n cadw llygad ar holl eiddo'r Antur, yn cynnal, cadw ac uwchraddio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'n tenantiaid. Dyma'r pwyllgor sy'n trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod y mwyafrif helaeth o'n hunedau a'n swyddfeydd yn parhau yn llawn, sydd unwaith eto yn dangos y galw am lefydd gwaith yn ardal Dyffryn Nantlle. Mae'n werth nodi hefyd fod y rhan fwyaf o unedau Cyngor Gwynedd a pherchnogion preifat yn yr ardal hefyd yn llawn, sy'n galonogol iawn.

Mae cyfraddau rhenti swyddfeydd ac unedau busnes yr Antur yn parhau i fod yn gystadleuol a'n telerau yn rhesymol iawn, ac fel rhan o'n polisi i gefnogi menter yn yr ardal leol, bu'r Antur unwaith eto yn falch iawn o roi hwb i fusnesau newydd drwy roi dau fis o rent yn rhad ac am ddim iddynt.

Rydym o hyd yn awyddus i gydweithio gydag unrhyw gorff neu asiantaeth sy'n gweithredu i hybu menter a chreu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn ardal Dyffryn Nantlle, felly mae ein hystafelloedd hyfforddiant a chyfarfod ar gael i unrhyw un sydd eisiau cynnal gweithgareddau o'r math yma.

Yn ychwanegol i warchod adeiladau'r cwmni, mae'r Antur eto eleni wedi bod yn brysur iawn yn gweithredu fel asiant ar gyfer Cwmni Adwy Cyf yn gwarchod nifer o adeiladau a gwasanaethu tenantiaid y cwmni ym Mhenygroes, Talysarn, Bethesda, Llanberis, Deiniolen, Blaenau Ffestiniog a Chorris. Bellach mae'r gwaith yma bron ar ben a'r Antur yn falch o fod wedi gallu cydweithio ar y cynllun.

Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle

20 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR

01286 882688 technoleg@anturnantlle.com

Yn y Canolfan Dechnoleg mae prif swyddfa Antur Nantlle, sydd ar agor ar y llawr cyntaf rhwng 9yb – 5yp yn ddyddiol a ble mae croeso i unrhyw un alw heibio.

Yn ddatblygiad arloesol yn 1990au, roedd Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle y cyntaf o'i fath yn yr ardal. Yn wir, yn seiliedig ar gynllun ein Canolfan Dechnoleg ni y sefydlwyd canolfannau dysgu gydol oes



Cyngor Gwynedd. Dros y blynyddoedd, gwelwyd newidiadau mawr mewn darpariaeth gyfrifiadurol a'r galw am wahanol fathau o hyfforddiant yn y maes.

Unwaith eto eleni fe gynhaliwyd amrywiol gyrsiau cyfrifiadurol a digidol yn yr ystafell hyfforddiant. Diolch i WEA Cymru am gydweithio ers y cychwyn cyntaf hyd heddiw i gynnig darpariaeth safonol o hyfforddiant cyfrifiadurol ym Mhenygroes. Cynhaliwyd cyrsiau cyfrifiadurol sylfaenol yma yn ogystal â chysiau i rai mwy profiadol, yn dysgu amrywiaeth eang o sgiliau yn cynnwys gweithdai digidol, defnyddio'r we ac e-bost yn ddiogel ac effeithiol, creu cyflwyniadau a llawer mwy dan diwtoriaeth trylwyr a difyr Richard Eastwood a Bob Thomas.

Cafwyd amryw o sesiynau cyfrifiadurol yn y Llyfrgell dan arweiniad Cyngor Gwynedd. Yn ogystal, gwnaed defnydd o'r cyfleusterau i gynnal amryw o gyrsiau a chyfarfodydd ar gyfer nifer o fusnesau a sefydliadau eraill.

Diolch i Adran TG y Cyngor am wasanaethu ein rhwydwaith gyfrifiaduron ac i'r Ddesg Gymorth am drefnu a gofalu fod y neges yn eu cyrraedd unwaith eto. Mae Antur Nantlle yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth yma.

Mae modd llogi'r ystafell hyfforddiant, yn ogystal â chymryd mantais o'n gwasanaeth 'desg dros dro' am bris rhesymol, ac rydym yn parhau i fod yn bwynt ailgylchu papur o bob math a chetris cyfrifiaduron drwy ddefnyddio gwasanaeth Antur Waunfawr.

Diolch yn fawr i Bet Hughes am gadw swyddfeydd y Ganolfan Dechnoleg, y Llyfrgell a Siop 22 yn lân ac yn dwt bob amser.

Llyfrgell Penygroes

Llyfrgellydd - Siwsan Broda

01286 880427 LLPenygroes@gwynedd.gov.uk

Ar adeg ble mae gwasanaethau cyhoeddus i gyd o dan y chwyddwydr a'r dyfodol ymhell o fod yn glir, mae Llyfrgell Penygroes unwaith eto wedi profi ei hun yn adnodd hollbwysig yn y pentref er budd holl drigolion Dyffryn Nantlle a'r cylch. Fel lle sy'n cynnig mynediad at gatalog enfawr o lyfrau, cylchgronau, DVDs a gemau fideo, mae yma rywbeth at ddant bawb. Mae mynediad i'r we drwy ddefnydd y cyfrifiaduron cyhoeddus, ac mae'r cyflenwad bandeang diwifr yn boblogaidd iawn.

Mae'r Llyfrgell unwaith eto eleni wedi bod yn hynod o brysur, a pharheir i gynnal sawl gweithgaredd yma i blant a rhieni, gyda sesiynau amser stori a chrefftau wastad yn boblogaidd iawn a phlant o bob oed yn cael y cyfle i fwynhau profiadau creadigol yn eu hardal leol.

Roedd ymateb da i sialens ddarllen yr Haf unwaith eto, a braf yw cael cofnodi fod nifer o blant a phobl ifanc y Dyffryn yn cymryd mwy o ddiddordeb yn eu Llyfrgell leol nag erioed ac yn ddarllenwyr brwd.

Yn ystod tymor yr ysgol, ar ôl hanner awr wedi tri'r prynhawn, golygfa gyffredin iawn yn y Llyfrgell yw gweld disgyblion yr ysgolion lleol yn ymchwilio a gwneud eu gwaith cartref yn gydwybodol sydd eto eleni yn dangos pa mor bwysig yw'r Llyfrgell i gymuned Dyffryn Nantlle. Da iawn chi blant.

Ar ben hyn oll, mae'r Llyfrgell yn le sy'n cynnig gwasanaeth cymunedol. Mae pawb a ddaw drwy'r drws yn siŵr o dderbyn croeso cynnes a gwasanaeth clodwiw gan Siwsan Broda, Llyfrgellydd Penygroes, neu Anwen y Llyfrgellydd Achlysurol. Pleser yw i Antur Nantlle allu parhau i gydweithio gyda'r gwasanaeth pwysig hwn er lles yr ardal.



Calonogol iawn yw deall fod Llyfrgell Penygroes yn parhau i apelio i bobl a phlant o bob oed, a bod y gwasanaeth cwsmer sydd ymysg y gorau drwy'r sir gyfan ar gael yma ym Mhenygroes.

Mae newidiadau mawr i wasanaethau cyhoeddus wedi cychwyn dod i rym a rhagor o newidiadau ar y gorwel. Mae ffocws y Llywodraeth a'r Cyngorau Sir yn parhau i fod yn bendant ar arbed costau ac effeithlonrwydd. Diolchwn i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd am y cyfle i drafod mewn modd adeiladol yn ystod y flwyddyn, ac rydym yn

falch fod y trafodaethau hyn a chefnogaeth Antur Nantlle a Chyngor Cymuned Llanllyfni wedi arwain at gadw Llyfrgell Penygroes ar agor.

Mae defnydd pob agwedd o'r Llyfrgell yn parhau i fod yn uchel iawn, o'r llyfrau i'r cyfrifiaduron, ac mae'n wir dweud eto eleni fod Llyfrgell Penygroes yn fwy na Llyfrgell - mae'n ganolfan i'r gymuned gyfan na ellir gwneud hebddi. Am hyn, mae diolch arbennig i Siw am ei gwaith gwych unwaith eto eleni.

Gwasanaeth Adfywio Bro, Cyngor Gwynedd

Swyddog Adfywio – Iwan Morris

01286 882968 iwangwynmorris@gwynedd.gov.uk

Mae Iwan wedi bod yn Swyddog Adfywio dros Ddyffryn Nantlle ers bron i 2 flynedd erbyn hyn, yn cefnogi pobl leol i gyfrannu tuag at adfywio eu cymunedau trwy brosiectau economaidd, cymunedol, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae wedi cyfrannu yn uniongyrchol i sawl prosiect er lles yr ardal drwy gydweithio gyda nifer o sefydliadau cymunedol yn y Dyffryn a thu hwnt.

Diolch am dy gymorth parod eleni Iwan, a mawr obeithiwn y gallwn barhau i gydweithio'n llwyddiannus er budd yr ardal ar adeg heriol ofnadwy i gymunedau bychain.



Iwan Morris

Os oes gennych chi syniad i wella eich cymuned a diddordeb mewn sefydlu menter gymunedol newydd, neu os ydych yn ymwneud â menter gymunedol sydd angen cefnogaeth, cysylltwch gydag Iwan.

Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle

Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Gwynedd LL54 6DB

Dyma gartref cyntaf yr Antur ac yma bu'r Swyddogion yn gweithio rhwng 1991 a 1999 pryd y symudwyd i'r Ganolfan Dechnoleg. Mae'r unedau bychain ar y safle wedi gweld amrywiaeth hynod o fusnesau bach yn mynd a dod ers amser agor y Ganolfan ac wedi bod yn llawn i gyd bron ers hynny.

Yn yr unedau heddiw mae modd prynu nwy potel a thrwsio eich offer torri gwair gan gwmni **Torwoods** yn Uned 1; derbyn gwasanaethau plymio o safon uchel gan gwmni **Andrew Roberts Cyf** yn Uned 2; prynu pysgod trofannol a'r holl offer ychwanegol megis tanciau gan gwmni **Pysgod Tropic-Al's** yn Uned 3, a phrynu rhannau a nwyddau ceir o bob math yn ogystal â thorri goriadau yn **Partiau Ceir Celtic** yn Unedau 4-7. Mae tenant newydd gennym yn y Swyddfa 2 a'r Ystafell Gyfarfod sef **Gwasanaethau Draeniau Colton** (croeso atom), ac yn yr Iard mae Alan Jones a'i gwmni **Weldio AWJ**. Braf iawn yw cael adrodd fod digon o amrywiaeth a bwrlwm fel arfer felly yn y Ganolfan Fenter.



Diolch yn fawr i Nerys Jones am gadw'r Ganolfan Fenter yn lân ac yn dwt bob amser.



Siop partiau a nwyddau ceir, Celtic Auto Parts



Siop bysgod trofannol, Tropic-Al's

Siop / Gweithdy, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG

Oriel Llun-Mewn-Ffrâm

01286 882056 meic@oriellunmewnffram.co.uk

Mae siop Meical Roberts – Llun Mewn Ffrâm – mor boblogaidd ag erioed ym Mhenygroes, gyda phobl yn teithio yma o bell i weld ei arddangosfeydd o waith celf gwreiddiol a phrintiau o waith rhai o artistiaid cyfoes gorau Cymru megis William Selwyn, Stephen John Owen, Aneurin Jones, Keith Bowen, Carys Bryn a Diane Williams i enwi ond ychydig.

Mae Meical hefyd yn cefnogi artistiaid lleol drwy eu hannog i ddangos eu gwaith yn yr oriel ac yn gwerthu nifer o grefftau, gwaith coed a llechi, cardiau cyfarch, crysau, cerddoriaeth Gymreig, hwdis a mwy. Eleni bu arddangosfa o waith celf gôl geidwad tîm pêl droed Cymru - Owain Fôn Williams - a fu'n hynod o lwyddiannus a phoblogaidd.





Dyma'r lle i fynd am wasanaeth fframio o safon uchel heb son am y croeso a phaned sydd wastad ar gael. Dim ots beth sydd gennych i'w fframio, boed yn bâr o fenyg bocsi i grys pêl droed wedi ei arwyddo gan sêr byd-enwog, neu drysor arbennig arall - gallwch fod yn sicr bydd Meic yn ei fframio gyda gwaith o'r safon uchaf un.

Mae waliau'r oriel werth eu gweld, wedi eu haddurno gydag amrywiaeth o luniau yn ogystal â geiriau rhai o ganeuon a cherddi mwyaf arwyddocaol y Gymraeg wedi eu hysgrifennu gan y cyfansoddwyr a'r beirdd eu hunain.

Mae yma gelf a chrefft o safon uchel iawn ac mae'r siop wastad wedi ei chyflwyno yn

ddeniadol iawn. Os am anrheg ar gyfer unrhyw achlysur neu rywbeth arbennig i'ch cartref, cofiwch alw heibio – chewch chi mo'ch siomi!

Fflat, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG

Mae'r Antur yn arbenigo mewn gosod unedau gwaith i fusnesau lleol am delerau rhesymol, ond pan ddaeth y cyfle i allu cynnig lle i fyw i bobl leol hefyd, roedd yr Antur yn falch iawn o wneud hynny.

Wedi ei adnewyddu i safon uchel, mae'r fflat dwy lofft yn le braf a chyfleus iawn i fyw a bum wrthi eleni yn gwneud mân waith cynnal a chadw i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cartref o safon i'n tenant.



‘Siop 22’

10 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR

Mae adeilad 10 Heol y Dŵr ym Mhenygroes wedi ei leoli mewn man canolog yn y pentref ac yn cynnwys tair swyddfa ar y llawr uchaf a siop ar y llawr gwaelod. Dyma esiampl dda o ffordd i gadw adeilad mewn ardal fel Dyffryn Nantlle at ddefnydd busnes lleol mewn modd cynaliadwy, a hynny ar un o brif strydoedd masnachol yr ardal.

Yn dilyn buddsoddiadau sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, a gwaith cynnal a chadw eleni, mae Siop 22 fel y'i gelwid yn lleol yn le braf iawn i weithio i'n tenantiaid.



Cewch yma amrywiaeth o wasanaethau yn cynnwys cyngor busnes ac economaidd ar gyfer prosiectau bach a mawr; gwasanaeth hypnotherapi clinigol ar gyfer ymdrin â nifer o gyflyrau a phroblemau; a gwasanaethau dylunio ar gyfer cardiau busnes, gwefannau, arwyddion a llawer mwy.

Y Siop

Bu siop gwasanaethau cyfrifiadurol **Intelligens IT** ar agor yma am chwe mis eleni, a braf oedd gweld defnydd o'r siop unwaith eto. Yn anffodus, oherwydd newidiadau yng nghynlluniau'r busnes mae'r drysau ar gau unwaith eto ond rydym yn dymuno yn dda i'r tenantiaid Neil ac Allison wrth iddynt symud ymlaen ar drywydd newydd.

Mae'r Siop ar gael i'w gosod ar hyn o bryd a'r gobaith yw cael darparu cartref i fusnes lleol arall yma yn y dyfodol agos iawn. Cysylltwch â swyddfa'r Antur ar 01286 882688 os oes gennych ddiddordeb.

Swyddfa 2

Mae Marc Roberts o'r Groeslon, yn un o fusnesau sefydlog Dyffryn Nantlle ers rhai blynyddoedd. Fel **Ymgynghori MARC a Cynlas Cyf** mae Marc yn darparu cyngor strategol ac economaidd i fusnesau ac yn brofiadol iawn yn ei faes wedi gweithio fel Swyddog, Rheolwr ac Uwch Reolwr gyda nifer o wahanol asiantaethau yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Bwrdeistrefol Arfon a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'n arbenigwr ar ddarparu cyngor economaidd a strategol a chreu cynlluniau busnes, ac fel 'hogyn Dyffryn Nantlle' mae gallu gweithio yn ei ardal ei hun yn beth agos i'w galon.



Mae Marc yn gwneud gwaith i nifer o fusnesau, grwpiau ac asiantaethau, ac yn weithgar iawn yn ei amser rhydd gyda chlwb pêl droed tref Caernarfon ac fel aelod o fwrdd rheoli cwmni Galeri Caernarfon Cyf.

Am gymorth gyda'ch busnes, cysylltwch gyda Marc ar **01286 882677** neu marcconsultancy@btconnect.com.

Swyddfa 3

David Davies a'i fusnes **Hypnotherapi Gwynedd** yw ein tenant yn Swyddfa 3. Yma, mae'n darparu gwasanaethau hypnotherapi clinigol ar gyfer cleifion ac yn eu helpu gyda phob math o gyflyrau yn cynnwys gorbwysedd, ofnau dwys, pyliau o banig, pryder a mwy.



Gallwch gysylltu â David, aelod o Gymdeithas Hypnotherapi Clinigol Prydain, ar **01286 238809** neu www.gwynedd-hypnotherapy.co.uk.

Swyddfa 4

Ein tenant yn Swyddfa 4 yw Justin Davies, sy'n rhedeg cwmni llwyddiannus **Dylunio Gringo Design**. Mae Justin yn arbenigwr ar greu gwaith graffeg o bob math a phan nad yw'n perfformio gydag aelodau eraill Gwibdaith Hen Frân, mae'n darparu gwaith brandio, deunyddiau marchnata, gwefannau a gwaith dylunio o'r safon uchaf un i'w gleientiaid.



Cysylltwch â Dylunio Gringo Design ar **01286 882561** neu post@gringodesign.co.uk gyda'ch anghenion.

Y Barics

Nantlle, Caernarfon, Gwynedd LL54 6BD

Hen 'farics' yn perthyn i Chwarel Penyrsedd oedd Y Barics erstalwm ond erbyn heddiw maent wedi eu troi yn unedau at ddefnydd y gymuned a busnesau bychain.

Unwaith eto, bu cryn dipyn o wariant yma eleni wrth i ni gynnal a chadw'r adeiladau hanesyddol yma sydd dan reolau cadwraeth, a'r tir o'u cwmpas. Bu Allan Humphreys drwy ei gwmni gwasanaethau garddio **Hafod Lleu**, yn brysur drwy gydol y flwyddyn yn torri'r gwair a'r coed ar y safle ar ein rhan ac mae ein diolch iddo yntau yn fawr am gadw'r Barics mewn cyflwr da. Rydym yn falch iawn o allu rhoi gwaith rheolaidd i fusnes lleol.

Uned 1



Eleni, bu i ni groesawu tenant newydd i'r uned hon, sef cwmni **Poblado Coffi**. Rydym yn hynod o falch o allu cynnig cartref i fusnes Cymreig sy'n rhostio coffi "teg o'r llwyn i'r felin" yma yn Nyffryn Nantlle.

Mae pob coffi gan Poblado wedi cael eu dewis yn ofalus i ddarparu tarddiad sengl gwych sydd hefyd wedi eu defnyddio i greu blendiau arbennig.

Mae Nantlle eisoes yn bentref hardd iawn, ond yn awr bydd yn arogl'n fendigedig hefyd!

Uned 2

Canolfan Llys Llywelyn yn Uned 2 yw canolbwynt bywyd cymdeithasol pentref Nantlle gyda chriw prysur yn trefnu bob math o weithgareddau sydd yn dod â'r gymuned at ei gilydd. Mae'r Antur yn falch o allu cynnig safle o safon i ganolfan o'r fath. Os cewch gyfle i alw draw am baned a sgwrs, mae'n werth gwneud hynny – mae 'na wastad rywbeth difyr yn digwydd yn y ganolfan diolch i'r criw prysur sy'n trefnu'r gwaith.



Uned 3

Peter a Wendy Midwinter gyda **Railways Unlimited** sydd yn Uned 3, sef cwmni yn trwsio, cynhyrchu, gwerthu a threfnu arddangosfeydd o drenau bach.

Mae'r arddangosfeydd manwl yma yn cymryd oriau maith i'w hadeiladau ac mae'r gwaith yn gywrain ofnadwy. Mae yma wled i unrhyw un sy'n frwdfrydig dros reilffyrdd a threnau gyda'r modelau yn ennill clod mewn sawl cylchgrawn mawr am eu safon.



Uned 4

Ar ôl i ni gael pleser mawr o weld un busnes bach yn sefydlu, tyfu ac ehangu i fod yn fusnes llwyddiannus iawn yn yr uned hon yn y blynyddoedd diwethaf, rydym yn falch iawn o gyflwyno busnes newydd sbon i'r uned, sef **Brodwaith ENW**. Mae'r busnes yn darparu gwasanaethau brodwaith, argraffu a thrin dillad o safon uchel i fusnesau, clybiau a phob math o gwsmeriaid eraill.



Uned 5

Bill Pywell yw ein tenant yn Uned 5, ble mae wedi sefydlu gweithdy **Gwaith Coed Gwyrdd** sydd werth ei weld. Mae Bill yn arbenigwr ar greu dodrefn a chreiriau o bob math allan o goed, ac mae ei waith unigryw a thrawiadol yn boblogaidd iawn. Bu Bill yn arddangos ei waith drwy gydol y flwyddyn mewn gwahanol wyliau crefft unwaith eto eleni a da yw clywed fod nifer o bobl yn ymddiddori yn y sgiliau yma er mwyn eu cadw'n fyw i genedlaethau'r dyfodol.

Mae Bill hefyd yn rhedeg cyrsiau gwaith coed gwyrdd i ddysgu'r grefft a'r technegau i rai sydd â diddordeb.



Tŷ Iorwerth

39 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6ES

Mae pob un ond un o'r swyddfeydd sydd ar ddau lawr uchaf adeilad Tŷ Iorwerth yn parhau i fod yn llawn, a bum yn falch o ymgymryd â rhagor o waith cynnal a chadw yn yr adeilad eleni er mwyn cadw'r lle ar ei orau er budd ein tenantiaid.

Diolch yn fawr i Nia Noone am gadw Tŷ Iorwerth yn lân ac yn dwt bob amser.

Bu rhaid comisiynu contractwr arbenigol i drin pydredd coed yn yr hen fanc a oedd yn gost annisgwyl i'r Antur, ond doedd dim dewis ac rydym yn falch o ddweud fod y gwaith yn awr wedi ei



gwblhau gan gwmni lleol **Kimberley Gulf** a diolch iddynt hwy am eu gwasanaeth. Bu rhaid tynnu'r hen gownter banc allan hefyd ond mae llawer o'r cymeriad (a'r sêff drom iawn) dal yma.

Rydym yn y broses o ymgeisio am arian grant i'n helpu i ddatblygu'r hen fanc i fod yn ased i'r gymuned a fydd yn cyfuno ymysg pethau eraill – gofod chwarae meddal i blant bach a rhieni, cownter deli gyda bwydydd lleol iachus, pwynt gwybodaeth i'r gymuned a siop cynnyrch lleol i arddangos a gwerthu cynnyrch yr amrywiaeth eang o fusnesau bychan sy'n cynhyrchu yn yr ardal. Mae ein cais cychwynnol wedi bod yn llwyddiannus ac rydym yn gweithio ar gael ein cais llawn i mewn erbyn diwedd Mawrth 2017. Gobeithio'r gorau felly!

Swyddfeydd 1-4

Swyddfeydd Gwasanaethau Llywodraeth Cymru

Mae swyddfeydd 1-4 yn cael eu defnyddio gan staff sy'n darparu gwasanaethau mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru.

Swyddfa 5

Wedi i grŵp Cymuned symud allan ar ôl sawl blynedd fel tenant, a diolchwn yn fawr iddynt am eu tenantiaeth, mae'r swyddfa braf hon sy'n edrych i lawr ar hyd Heol y Dŵr yn awr ar osod am delerau rhesymol ac yn leoliad delfrydol i weithio yng nghanol y pentref.

Y gobaith yw cael darparu cartref i fusnes lleol arall yma yn y dyfodol agos iawn. Cysylltwch â swyddfa'r Antur ar 01286 882688 os oes gennych ddiddordeb.

Swyddfa 6

Cris Jones

Cris Jones sydd yn Swyddfa 6 yn cynnig gwasanaethau cyfieithu.

Mae Cris yn gwneud gwaith cyfieithu o bob math ac yn cynnig telerau rhesymol a gwasanaeth prydlon bob tro.

Ffoniwch Cris gyda'ch anghenion cyfieithu ar **01286 880444**.



Swyddfa 7

Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru

Ben Gregory ac Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru yw ein tenant yn Swyddfa 7. Sefydlwyd yr ymgyrch ym 1986 i gefnogi pobl Nicaragua gyda'u dymuniad am fywyd gwell mewn amgylchiadau caled, ac mae'n parhau i weithio i gefnogi trigolion y wlad hyd heddiw.



Gerlan

28 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR



Dyma glamp o adeilad wedi ei addasu i gynnig swyddfeydd, ystafelloedd cyfarfod a storffeydd yng nghanol y pentref a braf yw cael adrodd ei fod yn llawn.

Y Bont yw ein tenant yn yr adeilad cyfan ble maent yn darparu gwasanaethau hanfodol i blant a theuluoedd a phleser o'r mwyaf yw cael cydweithio gyda'r corff yma.

Dyma le braf iawn i weithio ohono a chymerwn bleser yn y ffaith ein bod wedi cael y cyfle i gydweithio gyda Chwmni Adwy i ddiogelu

perchnogaeth leol ar adeilad masnachol arall (a Chapel Salem) er mwyn cyfrannu at economi Dyffryn Nantlle i'r dyfodol.

Gweithdai Capel Salem

Capel Salem, Ffordd Bryncelyn, Talysarn, Gwynedd, LL54 6AB



Un o hen Gapeli'r Dyffryn sydd wedi ei droi yn unedau busnes a chreffft bychan dros ddau lawr i fusnesau lleol. Mae pob uned yn llawn, a bum yn falch o ymgymryd â'r gwaith cynnal a chadw hanfodol yn yr adeilad eleni er mwyn cadw'r lle ar ei orau er budd ein tenantiaid.

Yma, cewch brynu gemwaith arian unigryw gan **Rauni Higson**, llyfrau cerddoriaeth gan **Curiad** a **Chwmni Cyhoeddi Gwynn**, offer beics gan **CycleWales**, gwasanaethau celf gan **Cate**

Williams a **Helen Howlett**, a hyd yn oed brynu iwcaili â wnaed â llaw neu fynychu cwrs adeiladu offeryn gyda **Pete Howlett Ukelele**.

Diolch yn fawr i Nia Noone am gadw Gweithdai Capel Salem yn lân ac yn dwt bob amser.

Unedau A9-A12

Ystâd Ddiwydiannol Penygroes, Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Gwynedd, LL54 6DB

Pedair uned ddiwydiannol ysgafn mewn lleoliad hwylus iawn ar Ystâd Ddiwydiannol brysur ym Mhenygroes yw'r rhain, a braf yw cael adrodd fod pob un yn llawn gydag amryw o wasanaethau gwahanol yn cael eu cynnig yma.

Yma, mae **Bragdy Lleu** yn cynhyrchu cwrw o safon uchel gan ddefnyddio dŵr Dyffryn

Nantlle a chynhwysion naturiol o'r safon uchaf; mae **Cymru Embroidery** yn cynnig gwasanaethau brodwaith a dillad gwaith i nifer o gwsmeriaid, mae **Weldio AWJ** yn gwneud gwaith weldio a ffurfio metel o bob math ac mae **Grŵp Cynefin** yn cynnal storfa ar gyfer y gymdeithas dai sydd bellach wedi tyfu i fod yn gwmni mawr iawn sy'n cyflogi nifer fawr o bobl yn lleol ac ar hyd Gogledd Cymru.



Y PWYLLGOR DIWYDIANT AC ECONOMI

(Cadeirydd: Dafydd Owen)

Is-grwpiau Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle. Mae hi'n parhau i fod yn gyfnod anodd ac ansicr iawn ar hyn o bryd, sydd wedi gweld lleihad pellach fyth mewn grantiau sylweddol i gwmnïau fel yr Antur ond mae'r drafodaeth yn mynd yn ei blaen a'r dyhead am weld gwelliant economaidd i Ddyffryn Nantlle yn dal i sbarduno.

Yr ydym yn barod i drafod gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno gyda ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal.

Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu

Yr Hen Ysgol, Rhyd Ddu, Gwynedd, LL54 6TL

Dyma'r flwyddyn gyfan gyntaf i'r Antur fod yn rhedeg Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu ac mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn rhwng bob dim. Mae'r Antur wedi credu ers sawl blynedd mai twristiaeth yw un o'r prif ffynonellau a ddaw a chyfle i gryfhau'r economi leol, ac felly sefydlu'r ganolfan hon go-iawn yn y byd awyr agored a'i datblygu i fod yn ganolfan hyfyw ac iddi nawys gryf Gymreig yw ein prif brosiect ar hyn o bryd.

Yn ôl ein rhagolygon yn y cynllun busnes, drwy barhau i wella'r cynnig yn y ganolfan rydym wedi llwyddo i ddenu cwsmeriaid newydd ac mae'r gwaith marchnata a hysbysebu yn dechrau dwyn ffrwyth i ledaenu'r gair am y ganolfan arbennig hon yn Eryri.

Mae sawl grŵp a chlwb awyr agored wedi gwneud defnydd o'r ganolfan, yn ogystal â chwsmeriaid preifat ledled Prydain sydd wedi dod yma a thrwy hynny ddysgu am iaith a diwylliant yr ardal. Mae dwsinau o ysgolion a grwpiau lleol hefyd wedi gwneud yn fawr o'r cyfleusterau sydd ar gael ar garreg eu drws a hynny am bris rhesymol iawn, ac mae'r adborth gan bawb am safon y ganolfan wedi bod yn ffaithiol dros ben.





Ym mis Awst aeth hofrennydd ar dân ar gopa'r Aran wedi iddi orfod glanio ar frys. Roedd yr hofrennydd yn rhan o Uned Hyfforddi Chwilio ag Achub yr Awyrlu sydd wedi ei lleoli yng ngwersyll RAF Y Fali ar Ynys Môn. Roedd yr Antur yn falch o allu chwarae rhan fach i gefnogi ymdrechion y gwasanaeth i ymchwilio'r digwyddiad a chlirio'r hofrennydd oddiar y mynydd, drwy gynnig llety cyfforddus i'r tîm oedd yn gweithio bob awr o'r dydd.

Rydym wedi gweithredu cam cyntaf ein rhaglen o welliannau i'r adeilad yn cynnwys creu ystafell wely newydd, gosod cegin newydd sbon, creu gofod diogel i storio beics, gosod byrddau a chadeiriau newydd i'r ystafell ddosbarth / fwyta, gosod cadeiriau meddal i'r ystafell gymdeithasol, gosod byrddau picnic yn yr ardd a mwy.

Rydym wedi codi'r nifer o bobl sy'n gallu cysgu yn y ganolfan i 30 ac yn hyderus ein bod yn cynnig caban cysgu a chanolfan awyr agored arbennig i'r defnyddwyr.



Rydym yn defnyddio cwmni glanhau sy'n cyflogi pobl leol i lanhau'r ganolfan yn drwyadl ar ôl pob ymweliad, ac yn edrych i gyflogi person lleol ar delerau sefydlog fel Gofalwr/aig Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i wneud y gwaith yma a mwy mor fuan â phosib. Yn wir creu gwaith a chyfleoedd hyfforddiant yn lleol yw ein prif nod gyda'r cynllun ac wrth i'r cynllun ddatblygu y bwriad yw cyflogi swyddog datblygu twristiaeth a rhagor o swyddi yn y dyfodol.

Drwy gydweithio gyda Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd, ymysg eraill, rydym yn cynnig dewis eang o weithgareddau awyr agored i westeion Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu, gan arbenigwyr profiadol yn y maes. Mae croeso hefyd i ddarparwyr yn y maes ddefnyddio Canolfan Rhyd Ddu fel canolbwynt i'w digwyddiadau eu hunain yn Eryri.



Yn ogystal â chreu gwaith, diogelu dyfodol y ganolfan, sef cartref y Prifardd T.H. Parry Williams, oedd un o'n prif amcanion gyda'r prosiect hwn o'r cychwyn, ac mae'n gwaith o ddatblygu elfen treftadaeth yr adeilad a datblygu pecynnau cyrsiau preswyl ar hanes a llenyddiaeth Dyffryn Nantlle wedi cychwyn. Rydym yn ddiolchgar i S4C, ITV a'r BBC am roi'r hawl i ni arddangos rhaglenni am fywyd a gwaith T.H. Parry Williams ar y sgrîn fawr yn y ganolfan, ac rydym wedi datblygu paneli gwybodaeth er mwyn

adrodd hanes bywyd a gwaith T.H. i ymwelwyr a defnyddwyr Canolfan Rhyd Ddu.

Cafwyd diwrnod gwych wrth i ni gynnal agoriad swyddogol y ganolfan ym mis Gorffennaf a braf oedd croesawu cymaint o bobl i'r digwyddiad arwyddocaol hwn, yn cynnwys rhai o berthnasau T.H. ei hun.

Alun Ffred Jones oedd yn gwneud yr agoriad, a chafwyd atgofion am T.H. gan Emyr Lewis, Catrin Beard a Sian Reeves wedi ei ddilyn gydag arweiniad i soned Tŷ'r Ysgol gan Karen Owen. Braint oedd gael pob un ohonynt yn rhan o'r digwyddiad.

Yn ystod y digwyddiad hefyd cafwyd cyfle i ddiolch i O.P. Huws a'i gyflwyno gyda thlws i goffau dros chwarter canrif o wasanaeth i'r Antur ac ardal Dyffryn Nantlle, ar achlysur ei ymdeoliad o'r Bwrdd yn gynharach yn y flwyddyn.



Un Cadeirydd a dau gyn-Gadeirydd

Mae datblygiad cynlluniau'r Antur ym maes twristiaeth yn cynnwys sefydlu canolfan awyr agored yn ganlyniad uniongyrchol i arweiniad O.P. ac rydym yn hynod ddiolchgar iddo am ei ymdrechion er budd trigolion Dyffryn Nantlle dros gymaint o flynyddoedd, a'r syniadau a'r cynlluniau di-ri y mae wedi eu cyflwyno yn yr amser hynny.

Yn wir, trist oedd gweld O.P. yn ymddeol o'r Bwrdd Rheoli ond braf yw cael adrodd ei fod yn dal i ymweld â swyddfa'r Antur ac yn dal i gyflwyno un neu ddau (neu dri!) o syniadau newydd yn rheolaidd!

Ymddeoliad hapus i chi O.P., a diolch am bopeth.

Mae llawer iawn o waith o'n blaen eto gyda'r prosiect cynhyrfus hwn, ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau ei fod yn llwyddo er mwyn creu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl leol yma yn Nyffryn Nantlle.

Ymwelwch â gwefan www.canolfan-rhyd-ddu.cymru am ragor o fanylion.

DIWEDDGLO

Dyma ddiwedd blwyddyn brysur arall i'r Antur a'r chweched i'r Antur fod yn gweithredu gydag un swyddog yn unig. Drwy edrych i ddatblygu prosiectau newydd megis y Banc, a gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant prosiectau presennol megis Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu, y nod yw gallu cynnig cyflogaeth ychwanegol yn uniongyrchol o fewn y cwmni yn ogystal â chreu cyfleoedd eraill i bobl leol fentro eu hunain.

Mae portffolio adeiladau masnachol ar-osod y cwmni wedi tyfu yn y flwyddyn ddiwethaf o 6 i 9 (10 yn cynnwys Canolfan Rhyd Ddu) wrth i'r Antur fuddsoddi mewn asedau lleol i sicrhau perchnogaeth leol ohonynt er budd y gymuned, ac mae llawer iawn mwy o waith gweinyddol a chynnal a chadw i'w wneud o'r herwydd. Gyda'r rhestr waith yn cynyddu mae ein cynlluniau o allu cynnig swyddi parhaol ychwanegol o fewn y cwmni o fewn cyrraedd.

Yr un yw nod yr Antur ers ei sefydlu yn ôl ym 1991, sef datblygu cynlluniau ddaw a gwelliannau economaidd a chymdeithasol i ardal Dyffryn Nantlle. Mae gennym nifer o gyfrifoldebau eraill erbyn hyn wrth gwrs, megis gwarchod ein hadeiladau a'n tenantiaid, sy'n bwysig iawn i ni – a chan fod ein ffiniau oddi mewn i ardal Dyffryn Nantlle mae'r gwaith hwn llawer yn haws a ninnau yn un teulu mawr.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai heriol iawn o ran y toriadau sylweddol sy'n wynebu'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector; ac mae'r rhagolygon o'r blynyddoedd sydd i ddod yn gaddo mwy fyth o fygythiadau i gymunedau megis Dyffryn Nantlle. Mae'r Antur wedi gorfod addasu a gweithio yn gynnil ar adegau er mwyn cynnal ein gwasanaethau craidd i drigolion y Dyffryn, sydd ddim bob tro wedi bod yn hawdd, ond, unwaith eto rydym yn edrych yn ôl ar y flwyddyn a fu gyda balchder ac yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd o'n blaenau. Gobeithio cawn wireddu ein cynlluniau i fuddsoddi yn y Banc er mwyn creu adnodd a fydd o fudd i holl drigolion y Dyffryn, yn ogystal â chyflogi swyddog ychwanegol i helpu gyda'r gwaith a pharhau i ddatblygu Canolfan Rhyd Ddu a Dyffryn Nantlle yn gyffredinol fel cyrchfan awyr agored gan greu cyfleoedd i bobl leol drwy ein gwaith.

Rydym wastad yma i wrando a thrafod syniadau; gweithio gyda'n gilydd fel un yw'r ffordd orau i warchod a gwella ein cymunedau. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â ni i weithio er lles yr ardal.

Diolch.

CYFRIFON BLYNYDDOL 2015 – 2016

ANTUR NANTLLE CYF.

Rhif Y Cwmni : 2618216

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31, 2016

**A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON**

ANTUR NANTLLE CYF.

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	1
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	2
Adroddiad Yr Archwilwyr	3
Cyfrif Incwm a Gwariant	4
Mantolen	5
Nodiadau	6 - 7
Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl	8

ANTUR NANTLLE CYF.
Adroddiad Y Cyfarwyddwyr Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2016

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31, 2016.

Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y cwmni yw hybu gweithgareddau sydd er lles economaidd, cymdeithasol ac yr amgylchedd yn Dyffryn Nantlle.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

Owen Penant Huws (Ymddiswyddod 4.2.2016)	Beryl Fretwell (Penodwyd 15.2.2016)
Ialryn Griffiths	Richard Wyn Huws
John Pritchard	Emrys Jones
Dafydd Owen	Myrddin Williams
Dyfed Wyn Edwards	Craig ab Iago
Gwynne Williams	Owain Rowlands
Eifion Wyn Davies	

Datganiad O'r Datgeliad Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Cyn belled a mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad (fel diffiniwyd gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol ohono, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymeryd y camau y dylent fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu y bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

Archwilwyr

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi ar sail y darpariathau arbennig sydd yn Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Dyddiad: 14.03.2016


 Dafydd Owen
 Gwyborthwyr y Cwmni

ANTUR NANTLLE CYF.
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr ar datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith a rheolau perthnasol.

O dan y Ddeddf Cwmnïau y mae yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon pob blwyddyn. O dan y ddeddf mae'r Cyfarwyddwyr wedi ethol i baratoi y datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig). O dan gyfraith cwmnïau ni ddyliau y Cyfarwyddwyr gymeradwyo y datganiadau ariannol onid eu bod wedi eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o'r gweddill neu'r diffyg am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;
- datgan os yw'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawriad materol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio fydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydsynio efo Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyrrhiad: 14/07/2016


 Dirwybrachymen y Isardd

Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Nantlle Cyf am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31 2016 ar dudalennau 4 i 7. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol i Unedau Llai (effeithiol Ionawr 2015), ac o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn ol y polisiau cyfrifyddol a restrir.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei greu i aelodau y cwmni, fel corff, ac yn unol a Pennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac i ddim pwrpas arall.

Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Ac Archwilwyr

Fel yr eglurwyd yn fwy llawn yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr ar dudalen 2, y cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am fod ym fuddon eu bod yn dangos darlun gwir a theg.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon yn unol a gofynion cyfreithiol a rheolau perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau yma yn gofyn i ni gydymffurfio gyda safonau moesegol i archwilwyr sydd wedi eu penodi gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio, gan gynnwys 'safonau moesegol Bwrdd Ymarferion Archwilio - Darbodion ar gael i Gwmnïau Llai (Diwygiedig)', yn yr amgylchiadau sydd wedi eu nodi yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol.

Sail yr archwiliad or datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth berthnasol i'r syniau a'r datgeiliadau yn y cyfrifon sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatganiadau sylweddol, a fyddai wedi'u achosi gan dywyll neu gamsyniad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r; amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wnaed gan y cyfarwyddwyr wrth baratoi'r cyfrifon gan ystyried a yw'r polisiau cyfrifyddol yn briodol i amgylchiadau'r cwmni, ac yn cael e'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; yn ogystal a gwedd gyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rydym yn darllen y gwybodaeth ariannol ac arall yn adroddiad y cyfarwyddwyr er mwyn datgelu unrhyw anghysondeb sylweddol i'r cyfrifon rydym yn eu harchwilio. Os i ni ddod ar draws anghysondeb neu gam-ddatganiad sylweddol, mi fyddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein adroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

- rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar Fawrth 31, 2016 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Unedau Llai; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Cwmnïau 2006.

Barn ar faterion a benodwyd gan Ddeddf cwmnïau 2006

Yn ein barn mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Y Cyfarwyddwyr am y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol i'r flwyddyn mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson gyda'r datganiadau ariannol.

Materion mae'n orfodol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os yn ein barn:

- nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol, neu nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad oddiwrth ganghenau nad ydym wedi ymweld a hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytun ar cofnodion ariannol; neu
- bod datguddiadau sy'n ofynol dan gyfraith cwmnïau yn berthnasol i enillion cyfarwyddwyr heb eu datgelu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad; neu
- nid oedd y cyfarwyddwyr yn deilwng i baratoi'r cyfrifon ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol a rheolau cwmnïau bach ac i gymeryd mantais o'r eithriad i gwmnïau bach or gofyniad i baratoi Adroddiad Strategol neu wrth baratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr.


Mr Orian Hughes (Pwyddolwr Statudol)
ar rai A. Hughes Jones Olyson a'u Cwmni
Archwiliwr Statudol a Cyfrifydd Statudol

Dyddiad: 14/07/2016

Capel Bluntda, 20eddi Fawrth, Cwmnïau, Gwynedd LL20 1N3

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2016

	Nodiadau	2016	2015
		£	£
Incwm		120,662	109,880
Gwariant		<u>(102,735)</u>	<u>(90,926)</u>
Incwm Sy'n Weddill	2	17,927	18,954
Llog Derbyniadwy		108	99
Llog a Dalwyd		<u>(1,002)</u>	-
Gweddill Cyn Trethiant		17,033	18,954
Trethiant	3	<u>(4,994)</u>	<u>(2,919)</u>
Gweddill Ar Ol Trethiant		12,039	16,035
Gweddill Ddygwyd Ymlaen		<u>142,046</u>	<u>125,912</u>
Gweddill Cariwyd Ymlaen		<u>154,085</u>	<u>141,947</u>

ANTUR NANTLLE CYF
Mantolen Ar Fawrth 31, 2016

	Nodiadau	2016		2015	
		£	£	£	£
Asedau Sefydlog					
Asedau Cyffyrddadwy	4		336,938		225,831
Asedau Cyfredol					
Dyledwyr	5	10,284		9,374	
Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw		<u>92,419</u>		<u>127,004</u>	
		102,703		136,378	
Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	6	<u>(23,747)</u>		<u>(13,994)</u>	
Asedau Cyfredol Net			<u>78,956</u>		<u>122,384</u>
Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau Cyfredol			415,894		348,215
Credydwy: symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn					
Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	7	(198,403)		(206,169)	
Benthyciadau banc	8	(63,406)		-	
			<u>154,085</u>		<u>142,046</u>
Cronfeydd			<u>154,085</u>		<u>142,046</u>

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail y darpariaethau arbennig sydd o fewn Rhan 15 o Ddeddf Cwmiau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach ac yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol i Unedau Llai (effeithiol Ionawr 2015).

 Cyfarwyddwr

 Cyfarwyddwr

14/07/2016 Dyddiad

Rhif Cwmni: 2618216

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2016

1 Polisiau Cyfrifyddol

Y sail gyfrifyddol

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn unol a'r Safon Adrodd i Unedau Llai.(Effeithiol Ionawr 2015)

Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Fe gynhwysir asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ol eu cost.

Fe ddibrisir yr asedau dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

Tir ac adeiladau - 4% o'r gost pob blwyddyn

Offer - 20% drwy'r dull mantol yn lleihau

Cyfrifiaduron - 25% drwy'r dull mantol yn lleihau

Mae gwariant ar itemau cyfalaf llai £100 yn cael ei trin fel gwariant yn y flwyddyn.

Grantiau

Mae grantiau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael eu gosod mewn cyfrif incwm gohiriedig. Fe ryddheir swm yn tlynyddol i'r cyfrif Incwm a Gwariant sy'n cyfateb i'r dibrisiant a ddarparwyd ar gyfer yr asedau perthnasol.

Archwiliwyr

Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwiliwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.

2 Incwm Sy'n Weddill

Mae'r incwm sy'n weddill ar ol;

	2016 £	2015 £
<i>Rhoi credyd am;</i>		
Incwm Gohiriedig a ryddhawyd	<u>25,194</u>	<u>21,708</u>
<i>Ac ar ol codi am:</i>		
Dibrisiant	33,194	24,714
Archwilio	<u>2,050</u>	<u>1,980</u>

3 Treth Gorfforaeth

	£	£
Darpariaeth am y Flwyddyn	<u>4,994</u>	<u>2,919</u>

ANTUR NANTLLE CYF.

4 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy

	Tir Rhydd-ddaliad		
	Ac Adeiladau	Offer	Cyfanswm
Cost	£	£	£
Ar Ebrill 1af 2015	605,713	14,770	620,483
Ychwanegiadau	126,831	17,470	144,301
Ar Fawrth 31 2016	<u>732,544</u>	<u>32,240</u>	<u>764,784</u>
Dibrisiant			
Ar Ebrill 1af 2015	381,655	12,997	394,652
Codiant am y flwyddyn	29,302	3,892	33,194
Ar Fawrth 31 2016	<u>410,957</u>	<u>16,889</u>	<u>427,846</u>
Gwerth Ar Bapur Net			
Ar Fawrth 31 2016	<u>321,587</u>	<u>15,351</u>	<u>336,938</u>
Ar Fawrth 31 2015	<u>224,058</u>	<u>1,773</u>	<u>225,831</u>

5 Dyledwyr

	2016 £	2015 £
Dyledwyr Eraill	3,192	4,735
Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd	<u>7,092</u>	<u>4,639</u>
	<u>10,284</u>	<u>9,374</u>

6 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn

	£	£
Benthyciad banc	5,215	-
Credydwyr eraill	11,471	7,245
Treth Gorfforaeth	4,994	2,919
TAW	<u>2,067</u>	<u>3,830</u>
	<u>23,747</u>	<u>13,994</u>

7 Croniadau Ac Incwm Gohiriedig

	£
Ar Ebrill 1af, 2015	206,169
Grantiau a dderbyniwyd	17,428
Swm a Rhyddhawyd	25,194
Ar Fawrth 31, 2016	<u>198,403</u>

8 Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn

	£	£
Benthyciadau Banc	<u>63,406</u>	-
Dyled yn daladwy mewn mwy na blwyddyn		
ad-daladwy rhwng un a phum mlynedd	25,347	-
ad-daladwy ar ol phum mlynedd	<u>38,059</u>	-
	<u>63,406</u>	<u>-</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2016

	2016		2015	
	£	£	£	£
Incwm				
Gwasanaethau		8,607		8,832
Rhent		68,155		62,610
Ffioedd Rheoli		18,581		27,721
Grantiau prosiectau		6,000		9,387
Canolfan Rhyd Ddu		4,729		-
Incwm Arall		<u>14,590</u>		<u>1,330</u>
		120,662		109,880
Gwariant				
Grantiau Cyfalaf Yn Cael Eu Rhyddhau	(25,194)		(21,708)	
Cyflogau	38,382		35,697	
Costau Pensiwn	944		875	
Costau Teithio	1,036		801	
Costau Rhyd Ddu	3,531		-	
Costau Swyddfa	844		644	
Llogi Offer	427		1,003	
Costau prosiectau	-		9,763	
Ffon	1,497		646	
Hysbysebu	6,449		504	
Costau Cynnal A Chadw	17,721		18,160	
Gwres a Goleuo	8,318		6,316	
Trethi	2,340		3,157	
Yswiriant	6,349		6,116	
Costau Archwilio	2,050		1,980	
Costau Proffesiynol	3,047		-	
Costau Banc	1,040		1,007	
Manion	760		1,251	
Dibrisiant Ar Adeiladau	29,302		24,228	
Dibrisiant Ar Offer	<u>3,892</u>		<u>486</u>	
		<u>102,735</u>		<u>90,926</u>
Gweddill am y flwyddyn		<u>17,927</u>		<u>18,954</u>



CANOLFAN DECHNOLEG ANTUR NANTLLE
20 HEOL Y DŴR
PENYGROES
GWYNEDD
LL54 6LR

01286 882688

post@anturnantlle.com

www.anturnantlle.com

www.canolfan-rhyd-ddu.cymru

www.facebook.com/anturnantlle



Llun clawr blaen © PANORAMA